Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# Ardal Ysgol Gynradd Howardian: opsiynau parcio

## Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 30/06/2022 a 29/07/2022.

Pwrpas yr ymgynghoriad oedd cyflwyno opsiynau mewn ymateb i bryderon gan y preswylwyr am effaith parcio a thraffig yn gysylltiedig ag Ysgol Gynradd Howardian.

Cafodd y preswylwyr lleol eu hysbysu drwy lythyr, ac ysgrifennwyd i 544 o eiddo am y cynigion. Casglwyd yr ymatebion yn bennaf gan ddefnyddio arolygon ar-lein, gyda chopïau papur o'r wybodaeth a'r arolygon ar gael drwy C2C a Llyfrgell Pen-y-lan. Derbyniwyd nifer fach o e-byst yn rhoi sylwadau ar y cynigion hefyd.

Yr ymatebion a dderbyniwyd:

- Un copi papur o arolwg Hampton Court Road
- Pum e-bost gyda sylwadau ar y cynigion
- Arolwg Hammond Way – 34 o ymatebion
- Arolwg Hampton Court Road – 18 o ymatebion
- Scholars Drive/Howardian Close – 17 o ymatebion
- Arolwg yr ardal ehangach – 103 o ymatebion

## Materion Penodol

Mae’r materion penodol a godwyd trwy'r ymgynghoriad wedi’u nodi isod ynghyd ag ymateb y Cyngor. Lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

### Hammond Way

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| Mae parcio ar Hammond Way yn lleihau'r stryd i un lôn ac yn achosi tagfeydd, gan orfodi cerbydau yn aml i yrru a/neu barcio ar y palmentydd. | Bydd y cynnig i gyflwyno cyfyngiadau Dim Aros a Dim Llwytho ar Hammond Way yn atal parcio a thagfeydd cysylltiedig. |
| Mae cerbydau sy'n aros i fynd ar Rodfa Colchester, a cheir sydd wedi'u parcio ar Hammond Way ger y goleuadau, yn gwahardd cerbydau rhag troi’n rhydd o Rodfa Colchester i Hammond Way. | Bydd y cynnig i gyflwyno cyfyngiadau Dim Aros a Dim Llwytho ar Hammond Way yn atal parcio a thagfeydd cysylltiedig. |
| Mae rhieni plant meithrin hefyd yn parcio'n beryglus ac yn anystyriol ganol dydd, gan rwystro dreifiau. Mae’r preswylwyr yn teimlo eu bod wedi'u cyfyngu gan y diwrnod ysgol. | Dylai cyfyngiadau helpu i atal problemau parcio. |

| | |
|---|---|
| Byddai cyfyngiadau ar Hammond Way yn symud y problemau i ffyrdd pengaead. Mae angen cyflwyno parcio â thrwydded ar gyfer ffyrdd pengaead. Mae dreifiau gan y rhan fwyaf o dai, felly ni fyddai angen i'r preswylwyr brynu trwyddedau. | Byddwn yn monitro'r sefyllfa ac effaith y cyfyngiadau parcio arfaethedig. Os bydd ymddygiad parcio/gyrru problemus yn parhau, bydd trwyddedau parcio ac opsiynau eraill yn cael eu hailystyried. |
| Ni fyddai cerbydau brys yn gallu cael mynediad i'r ardal yn achos argyfwng. | Bydd y cynnig i gyflwyno cyfyngiadau Dim Aros a Dim Llwytho ar Hammond Way yn atal parcio a thagfeydd cysylltiedig. |
| Mae'r preswylwyr wedi profi a gweld cam-drin geiriol gan yrwyr. | Dylid rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r heddlu ond dylai'r cyfyngiadau arfaethedig leddfu drwgdeimlad drwy leihau parcio anystyriol a thagfeydd. |
| Mae contractwyr y gwaith adeiladu yn achosi problem fawr. Bydd hyn yn parhau pan fydd pobl yn dechrau byw yn y fflatiau. | Bydd y cynnig i gyflwyno cyfyngiadau Dim Aros a Dim Llwytho ar Hammond Way yn atal parcio problemus. |
| Mae llygredd sy'n cael ei achosi gan swm y traffig yn bryder i iechyd a lles. | Dylai cyfyngiadau leihau tagfeydd a llygredd cysylltiedig. |

## Hampton Court Road

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| Ni fyddai parcio â thrwydded yn helpu a byddai'n creu anghyfleustra i'r preswylwyr. Mae'r problemau yn effeithio ar ran fach o'r diwrnod yn unig. | Mae'r pryderon diogelwch yn golygu y bernir bod rhai cyfyngiadau'n angenrheidiol i wella diogelwch disgyblion sy'n teithio i'r ysgol. |
| Mae rhieni a gweithwyr adeiladu sy'n parcio ar balmentydd yn cyfyngu ar le cerdded ac yn achosi problemau fel palmentydd wedi torri, cyfyngu ar linell weld a rhwystro dreifiau. | Dylai'r cyfyngiadau parcio arfaethedig atal parcio ar balmentydd. |
| Ni ddylai fod angen cyfyngiadau ar Hampton Court gan fod y fynedfa wedi ei symud i Glos Gwrgi. | Bydd y cyfyngiadau arfaethedig yn diogelu'r ardal ger y fynedfa gan greu parth diogelwch i ddisgyblion sy'n cerdded, yn sgwtera neu'n beicio i'r ysgol. |

## Scholars Drive a Howardian Close

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| Mae parcio anystyriol ar balmentydd yn achosi problemau diogelwch trwy gulhau'r ffordd a lleihau lled y palmant. Weithiau mae cerddwyr yn cael eu gorfodi i gerdded ar y ffordd o amgylch ceir sydd wedi parcio. | Nid oes unrhyw gynlluniau, ar hyn o bryd, i gyflwyno cyfyngiadau na pharcio â thrwydded ar Scholars Drive. Byddwn yn monitro'r sefyllfa ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau ar Hammond Way a Hampton Court Road. |
| Gyrwyr yn goryrru gyda'r preswylwyr yn cael eu cam-drin ar lafar gan yrwyr wrth gael eu herio. | Dylid rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r heddlu. |

| | |
|---|---|
| Byddai trwyddedau yn anghyfleustra i'r preswylwyr. Dylai cyfyngiadau fod ar waith yn ystod amseroedd ysgol yn unig, nid oes problemau ar Scholars Drive ar adegau eraill. | Nid oes unrhyw gynlluniau, ar hyn o bryd, i gyflwyno cyfyngiadau na pharcio â thrwydded ar Scholars Drive. Byddwn yn monitro'r sefyllfa ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau ar Hammond Way a Hampton Court Road. |

### Ardal ehangach

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| Pryderon y bydd cyfyngiadau ar Hammond Way a Hampton Court Road yn gwthio'r broblem i ffyrdd pengaead, Barons Court Road ac Earls Court Road. | Mae'n bosibl y bydd ceir yn cael eu parcio mewn mannau eraill yn yr ardal gyfagos. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd y ceir hyn yn cael eu parcio mewn un lleoliad yn unig. Ein prif flaenoriaeth yw gwneud y ffyrdd sy'n agosáu at yr ysgol yn fwy diogel fel y bydd disgyblion yn teimlo'n ddigon hyderus i deithio'n llesol, gan leihau'r angen i deithio mewn car. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau. |
| Mae trwyddedau parcio yn cosbi'r preswylwyr. Dylid cyfyngu ar barcio yn ystod amseroedd casglu a gollwng. | Bydd y cyfyngiadau parcio arfaethedig yn targedu amseroedd casglu a gollwng. |
| | |

## Sylwadau Cefnogol

Cafwyd nifer o sylwadau yn dweud y bydd y cynllun hwn yn gwella diogelwch cerddwyr drwy'r ardal.

Roedd sylwadau hefyd yn dweud y bydd y mesurau hyn yn gwella teithio llesol ac yn annog mwy o gerdded, sgwtera a beicio yn ôl ac ymlaen i ysgolion yr ardal.

## Casgliadau

1. Mae'r ymatebion i'r cynigion ar gyfer Hammond Way yn adlewyrchu'n glir y pryderon ynghylch traffig a pharcio ar Hammond Way a fynegwyd yn flaenorol gan y preswylwyr. O'r herwydd, yr argymhelliad yw cyflwyno rhai cyfyngiadau ffurfiol ar Hammond Way i atal cerbydau sydd wedi'u parcio rhag rhwystro'r lôn gerbydau yn ystod amseroedd casglu a gollwng prysur.

2. Er bod rhai preswylwyr wedi mynegi pryderon ynghylch ceir yn cael eu parcio yn y ffyrdd pengaead ger Hammond Way yn lle, nid oes consensws clir ynghylch y dymuniad i gyflwyno cyfyngiadau rhan amser a fyddai'n galluogi deiliaid trwydded preswylwyr yn unig i barcio yn y strydoedd ger Hammond Way.

3. Hefyd, nid oes barn glir yn yr adborth gan breswylwyr Scholars Drive a Hammond Close a allai ddangos bod y materion cyfredol yn effeithio'n llai arnynt.

4. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cyfyngiadau arfaethedig ar Hampton Court Road, a'r opsiwn am gyfyngiadau ar gyfer deiliaid trwydded preswylwyr ar strydoedd ger Hampton Court Road, hefyd yn gymysg iawn. Gall hyn adlewyrchu'r ffaith bod

rhai preswylwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw yn nes at fynedfa'r ysgol, yn cael eu heffeithio'n fwy gan y sefyllfa gyfredol na'r rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd.

5. Mynegodd nifer o'r ymatebion bryderon am effaith cyfyngiadau ar Heol Hampton Court ar strydoedd cyfagos.

## Argymhellion

O ystyried yr uchod, argymhellir y mesurau canlynol:

1. **Hammond Way a strydoedd cyfagos:** (Gweler Atodiad 1)
   Gweithredu gorchmynion rheoli traffig i gyfyngu parcio ar Hammond Way o'r gyffordd â Rhodfa Colchester i'r gyffordd â Woosnam Close ar ochr y gogledd, ac i ddechrau'r parc/ardal chwarae ar ochr y de, a diogelu cyffyrdd Sinclair Drive a Foster Drive gyda chyfyngiadau parcio. Y cyfyngiadau parcio a gynigir yn y lleoliadau hyn fydd Dim Aros a Dim Llwytho o Ddydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 08:00 a 16:30.

   Mae gan Gyffyrdd Woosnam Close a Chlos Cwrgi gyfyngiadau yn barod a fydd yn parhau mewn grym.

   Wrth gyffordd Rhodfa Colchester, cynigir cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg i atal cerbydau rhag parcio a rhwystro cerbydau rhag mynd i Hammond Way a'i adael.

2. **Scholars Drive a Howardian Close:** (Gweler Atodiad 1)
   Bydd cyffyrdd y strydoedd hyn â Rhodfa Colchester yn cael eu diogelu gyda chyfyngiadau 'Dim Aros ar Unrhyw Adeg'. Bydd y strydoedd hyn yn cael eu monitro pan fydd y cyfyngiadau uchod ar Hammond Way wedi'u rhoi ar waith i asesu a oes angen cymryd camau pellach.

3. **Hampton Court Road a strydoedd cyfagos:**
   Ar hyn o bryd ymgynghorir ar gynllun gorchymyn rheoli traffig ar gyfer datblygiad newydd Clos Cwrgi (gweler Atodiad 2). Rydym yn cynnig adfer y cyfyngiad 'Dim Aros ar Unrhyw Adeg' cyfredol gyferbyn â'r fynedfa i Glos Cwrgi ar ochr ogleddol Hampton Court Road, o'r llwybr hawl dramwy i'r gyffordd heibio'r fynedfa i Glos Cwrgi (gweler Atodiad 3).

4. **Barons Court Road:** (Gweler Atodiad 1)
   Cynigir diogelu'r cyffyrdd gyda Hampton Court Road ac Earls Court Place gyda'r cyfyngiadau 'Dim Aros ar Unrhyw Adeg' arfaethedig.

O ystyried yr ymatebion sy'n tynnu sylw at effaith parcio gan bobl nad ydynt yn byw ar Hammond Way ger y gyffordd â Rhodfa Colchester, sy'n arwain at dagfeydd sylweddol, ac ar Hampton Court Road yn gyffredinol, cynigir gweithredu cyfyngiadau heb drwyddedau parcio i breswylwyr yn unig i ddechrau. Byddwn yn monitro'r sefyllfa ac effaith y cyfyngiadau ychwanegol. Os bydd ymddygiad parcio/gyrru problemus yn parhau, bydd trwyddedau parcio ac opsiynau eraill yn cael eu hailystyried.

Bydd cyfyngiadau'n cael eu gorfodi drwy gyfuniad o gamerâu, ceir camera a swyddogion gorfodi sifil yn patrolio.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oedd yr ymgynghoriad gwreiddiol yn cynnwys opsiwn ar gyfer cyfyngu ar barcio rhwng 08:00 a 16:30.

Mae'r argymhelliad yn seiliedig ar nifer o ymatebion yn mynegi pryder trigolion, o'r datblygiad preswyl cyfagos ar Rodfa Colchester, sy’n parcio ar Hammond Way yn yr un modd ag y mae contractwyr adeiladu yn ei wneud ar hyn o bryd.